Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Y Bwrdd Rheoli
# Management Board

## Cofnodion y cyfarfod ar 7 Medi, 10.00-12.00
## Ystafell Gynadledda 4B

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)<br>Dianne Bevan (Prif Swyddog Gweithredu)<br>Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)<br>Non Gwilym (Pennaeth Cyfathrebu Allanol)<br>Joanest Jackson (Uwch Gynghorydd Cyfreithiol)<br>Steve O'Donoghue (Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad)<br>Sulafa Halstead (Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad)<br>Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi)<br>Kathryn Potter (Pennaeth Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau)<br>Connie Robertson (Pennaeth Ystadau'r Cynulliad a TGCh)<br>Sian Wilkins (Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth)<br>Cathryn Newman (Ysgrifenyddiaeth) |

### 1. Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, a Craig Stephenson, Pennaeth yr Uned Gorfforaethol. Nodwyd mai Non Gwilym fyddai'n gwneud nodiadau ar y materion allweddol yn ystod y cyfarfod, y gellid eu cyfleu i'r staff.

### 2. Datganiadau o fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

### 3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2009

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir. Nid oedd unrhyw faterion yn codi ohonynt.

## Materion trawsbynciol

### 4. Risgiau strategol - nod 2 - undod, arweinyddiaeth ac ymateb mentrus i newid cyfansoddiadol (papur 1)

Gofynnodd Claire Clancy am sylwadau'r Bwrdd am y risgiau mewn perthynas â bodloni Nod Strategol 2, a chodwyd y materion a ganlyn.

- Effaith yr adroddiadau negyddol yn y wasg yn ddiweddar. Cytunwyd y dylai holl aelodau'r Bwrdd Rheoli chwilio am gyfleoedd i amlygu hyder yr uwch reolwyr mewn staff, ac i gefnogi a hyrwyddo gweithgareddau cadarnhaol.
- Canlyniadau ac amseroedd Confensiwn Cymru Gyfan.

Gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried perchenogaeth o 10 risg strategol.

**Cam gweithredu:** Aelodau'r Bwrdd i e-bostio enwau ar gyfer perchenogaeth at Cathryn Newman.

## Materion perfformiad sy'n flaenoriaeth

### 5. Adroddiad rheoli cyllid: y flwyddyn hyd y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2009 (papur 2)

Cyflwynodd Steve O'Donoghue y papur, a gyflwynwyd mewn fformat newydd, gydag esboniadau manylach. Nodwyd prif risgiau'r prosiect Uno'r Rhwydweithiau ar gyfer y Sefydliad, prosiect y Pierhead a'r gronfa wrth gefn. Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd edrych ar eu llinellau cyllid a bod yn realistig ynglŷn â lle y gellid gwario'r arian sy'n weddill ar gyfer y flwyddyn hon, yn ogystal ag ystyried a fyddent yn cyflwyno unrhyw brosiectau o flwyddyn ariannol 2010-11. Cadarnhaodd Steve y byddai'r Adran Gyllid yn cynnal ymarfer ganol blwyddyn i adolygu'r gyllideb, ac y byddai adroddiadau rheoli cyllid yn y dyfodol yn cynnwys rhagolygon cyffredinol o'r alldro ar gyfer y flwyddyn.

### 6. Y dashfwrdd perfformiad allweddol (papur 3)

Nodwyd y dashfwrdd. Cynghorodd Non Gwilym bod y caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer y Pierhead wedi dod i law, a bod gobaith y bydd Cyfnod 2 y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn 21 Rhagfyr. Trefnwyd i'r lansiad ddigwydd ar 1 Mawrth 2010. Nodwyd bod y canllawiau arddull ar frandio yn cael eu hailddrafftio ac y byddai'r dyddiad ar gyfer eu dosbarthu yn cael ei gadarnhau'n fuan. Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd ystyried yr adnoddau o fewn eu cynlluniau maes gwasanaeth ar gyfer parhad busnes/y cynllun ffliw.

**Cam gweithredu:** Kathryn Hughes i:

- ychwanegu'r Mesur Cynulliad newydd i sefydlu Bwrdd Cydnabyddiaeth ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru at y cerrig milltir allweddol;
- ychwanegu Cyfnod 1 y prosiect i Gefnogi Aelodau'r Cynulliad at y cerrig milltir allweddol;
- cael gwared ar y ddau ddangosydd cyntaf o dan 'Busnes', tra'n nodi ymrwymiad y Bwrdd i gynnwys rhywbeth sy'n fwy addas, cyn y Nadolig.

### 7. Adroddiad ar brif bwyntiau'r adran adnoddau dynol (papur 4)

Nodwyd yr adroddiad ar y prif bwyntiau. Cytunwyd y byddai'r ffaith bod y ffigurau absenoldeb oherwydd salwch cyffredinol yn gostwng mewn modd cadarnhaol yn cael ei gyfleu i'r staff.

**Cam gweithredu:** Non Gwilym i gynnwys hyn yn ei nodyn i'r staff.

## Papurau drafft Comisiwn y Cynulliad

### 8. Cefnogi Aelodau'r Cynulliad – y cynllun gweithredu drafft a'r Mesur drafft (papur 5)

Trafodwyd y papur drafft a'r atodiadau.

**Cam gweithredu:**

- Joanest Jackson i ddosbarthu'r Mesur drafft i'r Clercod. Unrhyw sylwadau i gael eu hanfon ati hi yn absenoldeb Keith Bush;
- Unrhyw sylwadau ar y Cynllun Gweithredu i gael eu hanfon at Chris Reading.

## 9. Cyllideb ddrafft 2010-11 (papur 6)

Nodwyd a chymeradwywyd y papur eglurhaol.

**Cam gweithredu:** Dylid anfon unrhyw sylwadau am gynigion y gyllideb a'r dogfennau briffio ar y gyllideb at Steve O'Donoghue.

## 10. Gweithgareddau rhyngwladol y Cynulliad (papur 7)

Cyflwynodd Non Gwilym y papur drafft a oedd yn amlinellu gweithgareddau rhyngwladol presennol y Cynulliad a'r fframwaith arfaethedig ar gyfer datblygu rhaglen waith gydgysylltiedig ar gyfer y llwyfan rhyngwladol.

Cymeradwyodd y Bwrdd yr amcanion strategol, ond cytunodd na ddylid eu trosglwyddo i'r Comisiwn ar y cam hwn, ac y dylai'r adran Cyfathrebu Allanol weithio tuag at ddatblygu ymagwedd newydd o fis Mai 2011.

## 11. Y trywydd tuag at niwtraliaeth carbon (papur 8)

Cyflwynodd Dianne Bevan y papur, sy'n nodi strategaeth niwtraliaeth carbon y Cynulliad ac i ba raddau y gallai leihau ei ôl troed carbon yn rhesymol. Cytunwyd y dylai Connie Robertson drefnu i ail-ddrafftio'r papur, er mwyn cynnwys yr adborth ar y strategaeth a'r argymhellion a gynigir yn dilyn hynny. Bydd y papur yn cael ei ohirio tan gyfarfod y Comisiwn ym mis Tachwedd.

**Cam gweithredu:** Connie Robertson i ail-ddrafftio'r papur.

## 12. Y rhaglen dreigl (papur 9)

Nodwyd y rhaglen dreigl. Gofynnodd Claire Clancy i'r Bwrdd sicrhau y caiff yr ysgrifenyddiaeth ei hysbysu cyn i unrhyw eitemau gael eu cynnwys.

# Cloi'r cyfarfod

## 13. Unrhyw fusnes arall

Dim.

## 14. Cyfathrebu â'r staff

Byddai Non Gwilym yn trefnu pa bynciau a drafodwyd a fydd yn cael eu cyfathrebu â'r staff ar y dudalen newyddion, cyn gynted â phosibl.

## 15. Agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf

Steve O'Donoghue a Sian Wilkins i ystyried yr eitemau i'w cynnwys yn yr agenda.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**
**Medi 2009**